# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cod ymarfer ar ganiatau i'r cyhoedd weld gwybodaeth ar 8 Rhagfyr 2004, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 16 Rhagfyr 2004

**At Michael German:**

Yn ystod y ddadl ar 8 Rhagfyr 2004 ar y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth—Trydydd Argraffiad (Rhagfyr 2004), dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch ynglyn â'r gwahaniaeth rhwng gweithredu'r ddeddf rhyddid gwybodaeth yng Nghymru a'r Alban. Ar ôl ystyried yn ofalus y pwyntiau a wnaed gennych, gallaf ymateb fel a ganlyn.

Lluniodd Senedd yr Alban ei Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ei hun yn 2002. Mae'n gymwys i awdurdodau cyhoeddus yr Alban yn unig. Effaith mwyaf sylweddol Deddf yr Alban, o gymharu â Deddf y DU, yw bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus yr Alban ddangos y byddai datgelu gwybodaeth yn niweidio buddiant penodol yn sylweddol. Gellir cyferbynnu hyn â'r prawf rhagfarn syml yn Neddf y DU. Fodd bynnag, mae ein prawf niweidio sylweddol, sef un o brif nodweddion ein Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, yn sefydlu sylfaen ar gyfer natur agored o fewn y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n debyg i'r un sydd ar waith yn yr Alban. Y rheswm dros hyn yw bod prawf rhagfarn sylweddol yr Alban a phrawf niweidio sylweddol Cymru yn gofyn yr un cwestiwn.

Nodwyd gennych yn ystod y ddadl mai Deddf yr Alban sefydlodd comisiynydd gwybodaeth ar gyfer yr Alban ei hun ac awgrymwyd gennych bod posibilrwydd cael comisiynydd gwybodaeth yng Nghymru a fyddai, o bosibl, yn deall mwy am y ffordd y gwneir pethau yma. Mae comisiynydd gwybodaeth y DU yn cefnogi ein hawydd i greu natur mwy agored yng Nghymru. Penodwyd comisiynydd gwybodaeth cynorthwyol ganddo ar gyfer Cymru. Mae ganddi swyddfa yng Nghaerdydd ac mae mewn lle da iawn i wneud penderfyniadau hyddysg o fewn y fframwaith a grewyd gan ein cod. Hefyd, mae comisiynydd gwybodaeth y DU yn annibynnol ar Lywodraeth, sy'n golygu bod ein cysylltiad ni â'i swyddfa yn gydradd â chysylltiad Llywodraeth y DU â'i swyddfa.

Fel yr esboniais yn fy sylwadau i gloi'r ddadl, gennyf i, fel Prif Weinidog, y mae'r pwer i gyhoeddi tystysgrif i wrth-wneud penderfyniad a wnaed gan y comisiynydd gwybodaeth yng Nghymru, ac mae'r un peth yn wir am Brif Weinidog yr Alban. Dim ond ar ôl ymgynghori â'm cyd-weinidog yn y Cabinet sydd â'r portffolio y mae'r wybodaeth yn gysylltiedig ag ef y byddwn yn gwneud penderfyniad o'r fath. Mae hyn, unwaith eto, yn dangos bod ein hymagwedd yn gydnaws ag ymagwedd yr Alban.

O ystyried y gallu sydd gennym, drwy ein cod, i greu natur agored i'r graddau sy'n ddymunol gennym a'r graddau y mae comisiynydd y DU yn sensitif i sefyllfa Cymru, nid wyf o'r farn bod cael darpariaethau ar wahân o ran deddfwriaeth sylfaenol yn flaenoriaeth.